



ADRODDIADAU ARHOLWYR

**TYSTYSGRIF/DIPLOMA LEFEL 3 MEWN
GWYDDOR FEDDYGOL**

HAF 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
Uned 1	1
Uned 2	7
Uned 3	10
Uned 4	13
Uned 5	16
Uned 6	19

GWYDDOR FEDDYGOL

Tystysgrif/Diploma Lefel 3

Haf 2019

UNED 1

Sylwadau Cyffredinol

Uned 1 yw'r uned arholiad a asesir yn allanol ar gyfer y Dystysgrif Gwyddor Feddygol. Mae'n werth 50% o gyfanswm marciau'r Dystysgrif Gwyddor Feddygol. Darperir erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i ymgeiswyr bedair wythnos cyn yr arholiad (eleni cafodd hyn ei ymestyn i chwe wythnos oherwydd dyddiad gwyliau'r Pasg) ac maent yn cael cyfle i weithio drwy'r erthygl hon yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r cwestiynau yn Adran A y papur arholiad yn seiliedig ar yr erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. Gallai'r cwestiynau hyn ofyn am gynnwys sydd i'w gael yn uniongyrchol yn yr erthygl, gallent ofyn i ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth, neu gallent gyflwyno uned arall o waith sy'n gysylltiedig â'r hyn sydd yn yr erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw.

Mae Adran B yn seiliedig ar fanyleb uned 1 yn ogystal ag 8-10 marc o Uned 2 a hefyd Uned 3. Felly, mae elfen synoptig o fewn Uned 1. Bydd y cwestiynau'n profi amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys galw i gof uniongyrchol, dadansoddi, gwerthuso a sgiliau mathemategol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn ac roedd yn amlwg bod yr holl ymgeiswyr wedi cael digon o amser i gwblhau'r papur. Roedd nifer o ymgeiswyr wedi methu mynegi eu hunain yn glir ac roedd diffyg terminoleg neu benodolrwydd priodol yn yr atebion; roedd hyn yn broblem mewn sgriptiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg eto eleni.

Roedd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig eto'n broblem i rai ymgeiswyr. Mae blaen y papur arholiad yn eu hatgoffa bod angen Cymraeg/Saesneg da. Roedd yn amlwg hefyd bod llawer o'r ymgeiswyr yn cael anhawster â phroblemau mathemategol syml unwaith eto. Roedd yn braf gweld bod gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr offer priodol h.y. pensil a phren mesur i'w defnyddio i luniadu'r graff, er bod yr ymgeiswyr yn aml wedi dewis y math anghywir o graff.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Adran A - Deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw

Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi treulio amser sylweddol yn paratoi ymgeiswyr am adran y deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw. Cafodd yr ymgeiswyr hyn farciau uchel iawn am Adran A. Roedd nifer bach o ymgeiswyr, fodd bynnag, heb astudio'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw yn drwyadl ac yn methu ehangu y tu hwnt i gynnwys yr erthygl. Roedd yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw ar gael am chwe wythnos cyn yr arholiad i ganiatáu gwaith paratoi. Roedd cwestiynau'n seiliedig yn uniongyrchol ar gynnwys yr erthygl ac ar wybodaeth ehangach o'r fanyleb. Roedd ffactor hygyrchedd adran A yn 59.8, a'r gyfradd rhoi cynnig yn 100 %.

C.1 Ni chafodd yr ymgeiswyr unrhyw broblem i nodi tri pheth sy'n gallu achosi MS; roedd y rhain wedi'u rhestru'n gynhwysfawr drwy'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i gyd.

- C.2 (a)** Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu lluniadu niwron echddygol heb broblem. Fodd bynnag, roeddent yn ei chael yn anodd labelu'r ffurfiadau oedd wedi'u rhestru ac felly'n colli marciau am y labelu.
- (b)** Eto, nid oedd lluniadu cyfeiriad yr ysgogiad yn broblem i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

Dim ond galw i gof o'r fanyleb oedd cwestiwn 2, a gan fod y canllawiau i athrawon yn nodi'n glir bod disgwyl i ymgeiswyr allu lluniadu niwron echddygol a'i labelu'n llawn, roedd yn galonogol gweld bod canolfannau wedi rhoi sylw i'r gwaith hwn wrth addysgu uned 1.

- C.3** Roedd yr ymgeiswyr yn gallu nodi dau symptom a'u triniaethau i gael pedwar marc. Roedd y rhain wedi'u rhestru yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw.

- C.4 (a) (i)** Roedd y cyfrifiad mathemategol syml yn achosi problemau i nifer mawr o ymgeiswyr oedd wedi defnyddio'r ffigurau anghywir. Roedd ymgeiswyr wedi defnyddio ffigurau Lloegr yn unig heb gyfrifo canran y dioddefwyr MS o Loegr yn y DU - felly ni chafodd y rhain farciau. Roedd rhai ymgeiswyr yn cael trafferth i dalgrynnu i'r nifer cywir o leoedd degol ac roedd hyn yn arwain at golli marciau ac mewn rhai achosion, nid oedd yr ymgeiswyr yn cynnwys eu gwaith cyfrifo ac roeddent yn talgrynnu'n anghywir, ac felly'n cael dim marciau. Mae'r cyfrifiadau mathemategol syml hyn yn ymddangos bob blwyddyn.
- (ii)** Awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr resymau cywir pam gallai fod mwy o ddioddefwyr MS yn yr Alban nag yn Lloegr. Roedd y wybodaeth hon i'w chael yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw ac roedd hyn yn dangos bod yr ymgeiswyr yn gyfarwydd iawn â'r testun ar ôl paratoi ymlaen llaw.
- (iii)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi sylweddoli, yn gywir, bod gan yr Alban boblogaeth lai na Lloegr ac mai dyna pam roedd canran uwch wedi cael diagnosis, er bod y niferoedd yn is nag yn Lloegr.
- (b) (i)** Roedd y cwestiwn graff eleni'n gofyn i'r ymgeiswyr blotio graff bar o'r data o'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. Roedd hwn yn graff bar syml. Felly, roedd yn siomedig bod y mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr wedi dewis lluniadu graff llinell. Roedd y graffiau llinell hyn yn gallu cael hyd at 3 marc sef marciau am y raddfa, yr echelinau a'r plotiau. Roedd rhai ymgeiswyr wedi dewis graddfeydd mor rhyfedd nes ei bod hi'n anodd iawn plotio'r pwyntiau a'u bod nhw felly wedi colli'r marc plotio. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi troi'r papur graff ar ei ochr, sy'n dderbyniol, ond roedd hyn eto'n golygu bod y graddfeydd yn wahanol ac yn achosi gwallau plotio diangen.
- (ii)** Roedd cyfrifo cymhareb yn newydd i'r papur hwn yn ystod y tymor hwn, ond gwnaeth nifer mawr o ymgeiswyr hyn yn dda. Mae'n werth cofio bod disgwyl y sgiliau mathemategol hyn yn y fanyleb hon ar gyfer uned 1 a hefyd uned 3, ac y gellir eu cynnwys unrhyw bryd ynghyd ag unrhyw sgiliau mathemategol eraill sydd wedi'u rhestru.

- (c) Methodd llawer o ymgeiswyr ennill y marc am ddau welliant ffordd o fyw am nad oeddent wedi nodi 'mw' o ymarfer corff'. Nid dyma'r tro cyntaf i'r math hwn o gwestiwn ymddangos yn uned 1 ac felly dylai'r ymgeiswyr fod yn gyfarwydd ag amodi eu hatebion.
- C.5** (a) Mae dadansoddi data yn sgîl arall sy'n cael ei brofi bob blwyddyn. Felly, roedd yn siomedig bod llawer o ymgeiswyr wedi rhoi disgrifiad o'r duedd yn unig heb hyd yn oed geisio esbonio'r gostyngiad yn y niferoedd canrannol mewn cyflogaeth. Rwy'n amau bod llawer o ymgeiswyr heb ddarllen y cwestiwn yn iawn ac felly wedi methu ennill yr ail farc.
- (b) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu awgrymu rheswm dros y niferoedd isel sydd wedi'u cyflogi 30+ mlynedd ar ôl cael diagnosis.

Adran B

C.6 Ffactor hygyrchedd 42.5, cyfradd rhoi cynnig 100%.

- (a) 3 marc hawdd i ymgeiswyr oedd wedi dysgu eu gwaith drwy labelu'r ffurfiadau croen sy'n ofyniad ar lefel TGAU. Felly, syndod oedd gweld nifer yr ymgeiswyr gafodd drafferth â'r cwestiwn hwn.
- (b) Cyfle am 4 marc hawdd arall i ymgeiswyr oedd wedi dysgu eu gwaith ond eto, yn anffodus, roeddent yn methu adnabod y blewyn a'r chwarran chwys ac roedd y rhan fwyaf yn cael trafferth i nodi swyddogaeth y ddau. Roedd diffyg eglurder a manylder yn y disgrifiadau. Roedd ymgeiswyr yn enwi'r blewyn fel ffoligl blewyn, sy'n anghywir, ac yn methu rhoi digon o fanylion am eu swyddogaethau i ennill marciau.
- (c) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn methu enwi'r lewcocyt fel y gell sy'n cynhyrchu crawn. Rwy'n meddwl, yma, bod yr ymgeiswyr wedi methu cysylltu'r ddwy ran o'r fanyleb. Nid oedd 'cell wen y gwaed' yn cael ei dderbyn eto eleni oherwydd mae'r canllawiau i athrawon yn nodi'n glir y dylai'r ymgeiswyr ddefnyddio'r termau biolegol cywir am y celloedd hyn ar y lefel hon.

C.7 Ffactor hygyrchedd 35.9, cyfradd rhoi cynnig 98.2%.

- (a) Roedd y cwestiwn yn cynnwys ffotomicrograffau o'r gwahanol organynnau wedi'i lunio i fod yn hygyrch i bob ymgeisydd. Mater o alw i gof uniongyrchol oedd hwn i'r ymgeiswyr oedd wedi dod ar eu traws nhw yn ystod eu gwersi. Roedd llawer o ymgeiswyr yn methu adnabod y reticwlwm endoplasmig garw, yr organigyn Golgi a'r mitochondria ac roedd ymgeiswyr yn dyfalu'n anghywir.
- (b) Roedd yr ymgeiswyr yn cael trafferth i roi disgrifiad clir o adeiledd y bilen blasmaidd ac nid oedd eu hatebion yn ddigon manwl na gwyddonol. Nid oedd 'caru/casáu dŵr' yn ddigon i gael y marciau ac roedd llawer o ymgeiswyr yn methu rhoi mwy o ateb na hyn.

C.8 Ffactor hygyrchedd 26.4, cyfradd rhoi cynnig 98.8%.

- (a) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am gymhariaeth syml o DNA ac RNA. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ennill 1 marc yma, ond roedd llawer yn methu ennill dim mwy. Roedd y camgymeriadau cyffredin yn cynnwys sillafu thymin fel thyamin a pheidio rhoi datganiadau cymharu.

- (b) (i) Roedd nifer mawr o ymgeiswyr yn methu adnabod gwanin i gael y marc cyntaf ac yna'n methu nodi bod ganddo adeiledd cylch dwbl.
- (ii) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu nodi bod gwanin a chytosin wedi'u huno â bondiau hydrogen i ennill 1 marc ond yn methu disgrifio paru basau cyflenwol i ennill yr ail farc.
- (c) (i) Roedd ymgeiswyr yn cael trafferth i labelu'r safle rhwymo asidau amino ar y moleciwl tRNA ond roedd llawer yn gallu labelu'r gwrthgodon yn gywir.
- (ii) Daeth y cwestiwn hwn yn wahaniaethydd anfwriadol ar y papur hwn. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr ddisgrifio proses trosi. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr hyn yn wael, a dim ond nifer bach iawn gafodd fwy na 3 marc. Roedd yr ymgeiswyr yn cael trafferth i ddisgrifio'r broses, ac nid oedd llawer yn gwybod beth oedd swyddogaeth tRNA. Roedd y diffyg eglurder yn eu hatebion yn ei gwneud yn anodd rhoi marciau i lawer o ymgeiswyr ac roedd diffyg iaith wyddonol a manylder hefyd yn cyfyngu ar farciau.

C.9 Ffactor hygyrchedd 47.6, cyfradd rhoi cynnig 99.7%.

- (a) (i) Roedd amrywiaeth o atebion posibl i'r cwestiwn hwn a gwnaeth yr ymgeiswyr ymgeisiau da i gael y 3 marc oedd ar gael. Weithiau roedd marciau'n cael eu colli am beidio rhoi datganiadau cymharu ar gyfer gwrywod a benywod.
- (ii) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu dweud y byddai gordewdra'n rhoi straen ar y cymalau. Y camgymeriad mwyaf cyffredin yma oedd ymgeiswyr yn rhoi ymateb rhy generig a nodi 'cyhyrau' neu 'esgyrn' yn hytrach na chymalau.
- (b) (i) Ddylai'r cymal synfaidd neu'r cymal colfach ddim bod wedi achosi problem i ymgeiswyr, ond cafodd llawer hwn yn anghywir. Roedd yr ymgeiswyr hyn yn methu sylwi ar yr anogwyr yn y cwestiwn ac yn disgrifio'r cymal fel cymal pelen a chrau.
- (ii) Sgoriodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr o leiaf un marc ar y cwestiwn hwn, gan nodi'n gywir bod difrod i'r cartilag yn achosi ffrithiant neu rwbio, neu bod llid ar y bilen synfaidd. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu disgrifio'r rhain yn gywir i gael dau farc.
- (iii) Roedd gofyn i'r ymgeiswyr roi dau opsiwn ar gyfer triniaeth yma, ac roedd llawer wedi nodi llawdriniaeth, oedd yn gywir. Roedd nifer mawr yn disgrifio triniaethau sydd ddim yn digwydd, neu driniaethau fyddai'n amhosibl, felly nid oedd y rhain yn ennill marc. Roedd steroidau yn cael ei dderbyn os oedd yr ateb yn nodi'n benodol mai pigiadau steroidau oedd dan sylw. Roedd diffyg penodolrwydd mewn atebion yn gadael rhai ymgeiswyr i lawr ac yn achosi iddyn nhw golli marciau.

C.10 Ffactor hygyrchedd 39.4, cyfradd rhoi cynnig 99.7%.

- (a) Cwestiwn labelu sylfaenol arall, ond roedd mwy na'r disgwyl o'r ymgeiswyr wedi ei ateb yn wael. Roedd camgymeriadau cyffredin yn cynnwys labelu'r bronci fel y tracea a'r alfeoli fel y bronciolynnau. Mae'r gwaith hwn yn cael ei astudio ar lefel TGAU ar draws pob cwrs ac ni ddylai fod wedi achosi unrhyw broblemau o gwbl ar y lefel hon.
- (b) Roedd arddull cymhwyso'r cwestiwn hwn yn golygu bod llawer o ymgeiswyr wedi ei chael yn anodd ennill marciau. Roedd llawer yn deall y byddai cyfyngu'r llwybrau anadlu'n golygu y byddai llai o aer yn mynd i mewn/allan ond nid oeddent yn cysylltu hyn â chynyddu cyfradd anadlu i wneud iawn am hynny. Cafodd llawer sgôr o 1 marc yn unig.
- (c) Roedd hwn yn gwestiwn cysylltiedig o uned 3 felly dylai fod pob ymgeisydd wedi gwneud rhyw fath o ymchwil ac felly wedi gallu rhestru'r ystyriaethau moesegol hyn yn hawdd. Fodd bynnag, y prif atebion a roddwyd oedd cyfrinachedd a chydsyniad, oedd yn gywir, ond ychydig iawn a gyfeiriodd hefyd at y pwyntiau sydd i'w cael ar yr holiadur gwerthuso moesegol.

C.11 Ffactor hygyrchedd 27.4, cyfradd rhoi cynnig 99.7%.

- (a) Cyfrifiad mathemategol syml arall gafodd ei ateb yn wael gan y mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr. Dim ond nifer bach iawn o ymgeiswyr gafodd unrhyw farciau am y cwestiwn hwn. Roedd yn amlwg bod yr ymgeiswyr yn cael trafferth i ganfod y wybodaeth yn y cwestiwn ac yn defnyddio'r ffigurau anghywir i gyfrifo nifer y bobl oedd wedi cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn ar gyfer iselder. Roedd yr ymgeiswyr yn cyfrifo 74% o'r 2 000 oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg yn hytrach na darllen y ffigurau'n iawn a chyfrifo 74% o'r 29% oedd wedi chwilio am help. O ganlyniad, roedd yr ymgeiswyr anghywir yn cyfrifo rhifau enfawr.
- (b) Roedd yr ymgeiswyr yn cael trafferth i restru ffactorau risg ar gyfer iselder, ac yn rhoi symptomau posibl iselder yn lle hynny.
- (c) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi rheswm pam byddai'r gost yn llawer uwch na'r gost oedd wedi'i chyfrifo, gan ystyried y ffaith bod pobl yn colli oriau yn y gwaith a bod llawer heb gael diagnosis.
- (ch)
 - (i) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi methu nodi y byddai pob rhanbarth yn dioddef yr un ffactorau risg ar gyfer iselder fel baich gwaith, tai, cost byw ac ati. Felly, ychydig iawn o farciau a roddwyd am y cwestiwn hwn a daeth y cwestiwn yn wahaniaethydd anfwriadol.
 - (ii) Doedd y cwestiwn hwn ddim yn broblem i'r ymgeiswyr, ac roedd llawer yn gallu enwi dulliau i leihau iselder.

C.12 Ffactor hygyrchedd 45.5, cyfradd rhoi cynnig 99.9%.

- (a) Daeth y tabl hwn yn wahaniaethydd ar y papur hwn. Hwn oedd prif gwestiwn cyswllt uned 2, a chafodd ei ateb yn wael iawn gan lawer o ymgeiswyr. Roedd yn amlwg nad oedd llawer ohonyn nhw'n gwybod dim am ddiben y profion ffisiolegol. Roedd yn glir o'r atebion bod rhai canolfannau wedi adolygu'r gwaith hwn ac eraill heb wneud hynny. Mae'n werth cofio bod angen rhoi sylw i'r holl gynnwys o bob uned ar gyfer yr arholiad hwn.

- (b) (i) Gallai'r ymgeiswyr enwi newidynnau mae angen eu hystyried cyn cymryd darlleniadau pwysedd gwaed. Mae'n debygol bod hyn oherwydd bod ymgeiswyr yn defnyddio'r prawf hwn yn ystod eu gwaith project ar gyfer uned 2.
- (ii) Roedd tri marc ar gael yma am ddisgrifiadau ac esboniadau cywir o'r graff oedd wedi'i roi o bwysedd gwaed mewn gwahanol bibellau gwaed. Sgoriodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr o leiaf un marc am ddisgrifiadau sylfaenol o'r graff; roedd hyn yn galonogol. Roedd nifer bach o'r ymgeiswyr yn gallu datblygu eu hatebion ac yn disgrifio effaith ffrithiant ac arwynebedd trawstoriadol ar bwysedd gwaed. Roedd hyn yn galonogol.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Roedd gwelliant eto eleni yn ansawdd yr atebion, yn enwedig ar gyfer adran A, ac roedd yn amlwg bod canolfannau wedi treulio'r amser cyn yr arholiad yn astudio'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw.
- Roedd sgiliau mathemategol yn broblem eto eleni a dylai canolfannau fod yn siŵr eu bod yn rhoi sylw i'r agwedd hon ar y cwrs cyn yr arholiad – dewis graffiau priodol, plotio pwyntiau'n gywir a chyfrifo canrannau.
- Roedd ansawdd ymatebion ysgrifenedig a'r defnydd o iaith benodol i'r pwnc yn wael eleni gan nifer mawr o ymgeiswyr, a chollwyd llawer o farciau oherwydd hyn. Cafwyd atebion gwael hefyd i gwestiynau galw i gof uniongyrchol ar themâu sy'n rhan o fanylebau TGAU, ac roedd hynny'n siom.
- Er bod y cynnwys yn ymddangos yn enfawr, mae hen ddigon o amser yn y flwyddyn i ganolfannau roi sylw i bob agwedd ar waith yr uned hon. Dylai canolfannau gyfeirio at y canllawiau i athrawon i weld faint o fanylder y dylid ei addysgu. Dylai canolfannau hefyd gofio adolygu gwaith o Unedau 2 a 3 oherwydd gellir profi'r rhain yn yr arholiad hwn. Gwelwyd eleni bod atebion i'r cwestiynau Uned 2 yn wael iawn ac yn dangos nad oedd rhai ymgeiswyr wedi gwneud y gwaith hwn yn ystod eu gwersi.

GWYDDOR FEDDYGOL

Tystysgrif/Diploma Lefel 3

Haf 2019

UNED 2

Sylwadau Cyffredinol

Cafodd gwaith ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon yn y gyfres hon gan bedwar deg dau o ganolfannau.

Ar y cyfan, roedd ansawdd y gwaith a gyflwynwyd gan ganolfannau o safon uchel ac roedd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau asesu a wnaeth y canolfannau yn ddilys ac yn cyd-fynd â phenderfyniadau'r cymedrolwr. Roedd rhai canolfannau wedi rhoi graddau rhy uchel ar gyfer rhai meini prawf asesu, gan roi marciau band uwch lle roedd gwaith yr ymgeisydd yn perthyn i'r band canol ar y gorau.

Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau wedi cyflwyno'r gwaith gweinyddol yn gywir, a'r ymgeiswyr wedi llofnodi dalenni dilysu. Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau wedi cwblhau'r ddalen cofnodi marciau yn gywir; roedd rhai canolfannau wedi cynnwys anodi manwl ar waith ymgeiswyr, oedd o gymorth i'r tîm cymedroli.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Tasg 1

Mae angen i ymgeiswyr gynhyrchu gwybodaeth cyn prawf ar gyfer tri phrawf gwahanol; mae'n rhaid i un o'r profion hyn fod yn ECG.

Mae'n rhaid dangos MPA1.1 ym mhob darn o wybodaeth i gleifion cyn y prawf, gan fod pob darn wedi'i farcio allan o gyfanswm o 6 marc, felly cyfanswm o 18 marc am y MPA hwn. Ar gyfer MPA1.1, mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn gwneud mwy na disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal y prawf ffisiolegol – mae angen esbonio egwyddorion sut mae'r prawf yn gweithio hefyd. Er enghraifft, ar gyfer y prawf anterth llif, gallai'r ymgeiswyr esbonio bod y prawf hwn yn mesur llif aer drwy'r bronci ac felly faint o rwystrau a/neu gulhau sydd yno. Ar gyfer pwysedd gwaed, mae angen i'r ymgeiswyr esbonio sut mae'r cwff yn enchwythu i atal llif gwaed, yna'n rhyddhau'n araf, fel bod y synhwyrdd yn gallu cofnodi'n gywir pryd mae'r pwysedd yn dychwelyd. Dylai esboniadau ar gyfer pwysedd gwaed gyfeirio at fesuriadau systolig a diastolig, a nodi beth yw'r rhain mewn perthynas â'r gylchred gardiaidd er mwyn i'r ymgeiswyr gael marciau yn y band uchaf. Roedd llawer o ymgeiswyr yn ymddangos yn ddryslyd am egwyddorion mesur anterth llif, gan gymysgu rhyngddo a chyfaint yr ysgyfaint. Roedd gormod o daflenni'n cynnwys tablau bach, annarllenadwy o werthoedd normal ac annormal, heb eu labelu/adnabod; byddai'r rhain yn ddiwerth i gleifion; dim ond data crynodeb sydd eu hangen ar ymgeiswyr a gallan nhw ddefnyddio'r rhain wedyn ar gyfer MPA1.2.

Tasg 2

Ar gyfer y dasg hon, mae angen i'r ymgeiswyr gynhyrchu cynllun (MPA3.1). Dylai'r cynllun hwn fod yn fanwl a rhoi sylw i bwyntiau sydd wedi'u nodi yn y fanyleb, fel: dweud pa wybodaeth a gesglir, pa weithdrefnau a ddefnyddir, pa gyfarpar sydd ei angen, a lleoliad ac amser y prawf; sut/pryd bydd cleifion yn cael gwybod pryd mae angen iddynt fod yno, beth dylent/na ddylent ei wneud cyn y prawf (gallai hyn fod yn gopi o ffurflen hysbysu claf); unrhyw unigolion eraill mae angen cysylltu â nhw - e.e. technegydd, cyfleusterau ac ati. Er bod y cofnod arsylwi hefyd yn gallu cynorthwyo i gyflawni ac asesu'r MPA hwn, mae'n hanfodol bod ymgeiswyr yn cynhyrchu cynllun ysgrifenedig eu hunain, gan gynnwys MPA2.1 a 2.2 mewn cryn fanylder. All tystiolaeth o MPA2.1 a 2.2 ddim dod o'r cofnod arsylwi yn unig.

Mae angen i'r ymgeiswyr gynnal o leiaf **ddau brawf** ar o leiaf **ddau** glaf. Dylai'r ddau brawf brofi gwahanol systemau ffisiolegol, er enghraifft prawf pwysedd gwaed: y system gardiofasgwlar, anterth llif: y system resbiradol. Dydy profion fel BMI/cyfradd anadlu ddim yn profi system benodol a dydyn nhw ddim wedi'u rhestru yng nghynnwys yr uned hon (MPA3.2). Mae ocsimetreg pwls a phwysedd gwaed yn gyfuniad derbyniol o brofion.

Y gofyniad clinigol a ddisgwyliar yw ailadrodd mesuriad pwysedd gwaed dair gwaith. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i brosesu data (MPA4.1), drwy gyfrifo cymedr. Mae tri darlenniad hefyd yn darparu data i ymgeiswyr fynd ymlaen i drafod ailadroddadwyedd ac allanolion yn eu data, wrth werthuso (MPA4.3). Does dim angen cyfrifo cymedr canlyniadau anterth llif; dylid defnyddio'r darlenniad uchaf.

Tasg 3 a 4

Mae'r ddwy dasg hyn yn gysylltiedig, ond mae'n bwysig sicrhau bod ymgeiswyr yn rhoi sylw i bob MPA dan sylw. Does dim angen rhoi dadansoddiad manwl o'r canlyniadau yn y blwch crynodeb o ganlyniadau'r prawf ar y pro-forma. Mae'n rhaid ystyried cyfyngiadau'r profion maen nhw wedi eu cynnal (MPA1.3). Ddylai'r cyfyngiadau hyn ddim ymwneud yn benodol â'r unigolion sy'n cael eu profi, ond â'r prawf/dull profi/cyfarpar ac ati a ddefnyddiwyd. Os mai dim ond un mesuriad pwysedd gwaed sy'n cael ei gymryd, dydy hyn ddim yn gyfyngiad, oherwydd mae disgwyl tri darlenniad ar gyfer y prawf mesur hwn.

Ar gyfer MPA4.1 dylai ymgeiswyr brosesu data o'r profion mesuriadau ffisiolegol maen nhw wedi'u perfformio ac o'r data a ddarperir iddynt (olin ECG). Mae hyn yn golygu bod angen cyfrifiadau cywir a defnyddio ffigurau ystyrion, gydag unedau. Ar gyfer yr olin ECG, dylai'r ymgeiswyr labelu cydrannau'r ECG (P, QRS a T) a gwneud dadansoddiad perthnasol. Dylent hefyd roi sylwadau am "ailadroddadwyedd" y ddwy olin sydd wedi'u rhoi. Mae'n rhaid amgáu'r olin ECG gyda'r adroddiad; mae'n ganlyniad. Os nad oes olin ECG, mae'n amhosibl gwirio ydy ymgeiswyr wedi cael olin arall fel enghraifft.

Ar gyfer MPA4.2 mae angen i'r ymgeiswyr ddarparu casgliadau sy'n fanwl ac wedi'u cysylltu'n glir â'r dystiolaeth, gan gynnwys cymharu â normau disgwyliedig a hanes y claf. Mae angen i'r ymgeiswyr gysylltu eu canfyddiadau â ffisioleg ddisgwyliedig a phatholeg bosibl. Nid yw datganiadau fel "mae'r unigolyn yn iach" yn gysylltiedig â thystiolaeth nac yn addas ar y lefel hon fel esboniadau manwl.

Ar gyfer MPA4.4 mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn defnyddio iaith wyddonol a thechnegol yn briodol ac yn gyson yn yr adroddiad ar gyfer pennaeth yr adran (e.e. gorbwysedd yn hytrach na phwysedd gwaed uchel) i gyrraedd y band uchaf.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Dyma'r drydedd flwyddyn y gallai ymgeiswyr gyflwyno gwaith ar gyfer yr uned hon.
- Roedd yn braf gweld bod llawer o ganolfannau wedi ymateb i'r sylwadau a wnaethpwyd mewn adroddiadau blaenorol gan gymedrolwyr.
- Sicrhewch fod y profion sydd wedi'u rhestru yng nghynnwys y fanyleb ar gyfer uned 2 yn cael eu dewis – dydy rhai sydd ddim yn benodol i unrhyw un system organau ddim yn briodol.
- Mae anodiadau gan ganolfannau'n gymorth mawr i'r broses gymedroli; maent yn galluogi'r cymedrolwr i weld pam mae canolfannau wedi gwneud eu penderfyniadau asesu.
- Atgoffir canolfannau bod gwaith enghreifftiol ar gyfer yr uned hon ar gael i'w weld ar wefan ddiogel CBAC.

GWYDDOR FEDDYGOL

Tystysgrif/Diploma Lefel 3

Haf 2019

UNED 3

Sylwadau Cyffredinol

Dyma'r drydedd flwyddyn y gallai ymgeiswyr gyflwyno gwaith ar gyfer yr uned hon.

Yn gyffredinol roedd safon y gwaith a gyflwynwyd yn dda ac roedd yr asesiadau gan y canolfannau'n gywir ar y cyfan ac roedd y cymedrolwyr yn cytuno â nhw. Roedd yn braf gweld bod llawer o ganolfannau wedi ymateb i'r sylwadau a wnaethpwyd mewn adroddiadau blaenorol gan gymedrolwyr.

Roedd y gwaith gweinyddol yn gywir gan fwyaf, a'r ymgeiswyr wedi llofnodi dalenni dilysu. Byddai o gymorth pe bai mwy o anodi ar waith yr ymgeiswyr, yn y manau priodol, i ddynodi pam rhoddwyd rhai bandiau a marciau ar gyfer y meini prawf asesu unigol.

Os yw canolfannau'n newid tasg yr aseiniad enghreifftiol, argymhellir yn gryf eu bod yn cysylltu â CBAC i wneud yn siŵr bod ymgeiswyr yn gallu cynhyrchu'r dystiolaeth sy'n ofynnol i fodloni'r meini prawf asesu.

Wrth lungopïo cyflwyniad yr ymgeisydd, gwnewch yn siŵr bod unrhyw daenlenni, tablau a graffiau'n ddigon mawr i'w darllen yn hawdd. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes cyfrifiadau ystadegol wedi'u cynnwys yn y daenlen.

Os yw ymgeiswyr yn dechrau cynllunio eu gwaith â newidynnau dibynnol ac annibynnol clir a mesuradwy, mae'n gosod tôn gweddill yr ymchwiliad; sy'n ei gwneud yn haws cynllunio'r holiadur, casglu a gwerthuso data, a llunio casgliadau.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Tasg 1: Cynllunio i gynnal yr ymchwiliad

MPA1.1: I gyrraedd band 3, mae'n ofynnol i ymgeiswyr roi disgrifiadau clir o'r newidynnau yn ogystal â sut i'w mesur neu, ar gyfer y newidynnau allanol, sut gellir eu rheoli, neu leihau eu heffaith. Mae nodi 'agweddau' fel y newidyn dibynnol yn rhy amwys. Mae hyn yn arwain at holiaduron sy'n rhy hir; a chasglu swm mawr o ddata sydd yna'n gwneud y dadansoddiad yn rhy gymhleth.

MPA1.2: Er ei bod yn hanfodol dyfynnu rhagdybiaeth yr ymchwiliad, mae'r marciau'n cael eu rhoi am ei chyfiawnhau. Dylai ymgeiswyr ystyried pam maen nhw wedi dewis ymchwilio i'r rhagdybiaeth hon a pham gallai'r wybodaeth a gynhyrchir fod yn werthfawr. Efallai y bydd yr ymgeiswyr gorau'n cyfeirio at bapur ymchwil neu erthygl mewn papur newydd. Does dim angen cynhyrchu tudalennau o ddata eilaidd. Collodd llawer o ymgeiswyr farciau yma drwy sôn am ragdybiaeth ungynffon neu ddwygynffon yn unig.

MPA1.3 ac **1.4**: Atebwyd y rhain yn dda ar y cyfan gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Roedd rhywfaint o ddryswch rhwng data ansoddol a data meintiol. Roedd yr atebion gorau'n cyfeirio at sut gellid dadansoddi'r data, er enghraifft, drwy roi enghreifftiau o gwestiynau fydd yn cynhyrchu data ar gyfer lluniadu graffiau neu y gellir eu defnyddio ar gyfer prawf ystadegol a enwir. Fe'ch cyfeirir at y gwefannau sy'n cael eu henwi yn y llawlyfr Canllawiau Addysgu i gael gwybodaeth am dechnegau samplu.

Tasg 2: Casglu gwybodaeth

MPA2.1: I roi marciau band 3, mae angen i'r cynllun fod yn ddigon manwl i gael ei ddilyn gan drydydd parti. Er enghraifft, nid yw'n ddigon dweud y caiff yr holiadur ei rannu. Sut caiff ei rannu? Roedd rhai ymgeiswyr wedi colli'r holl farciau oedd ar gael yma drwy beidio â chynnwys cynllun.

MPA2.2: I lawer o ymgeiswyr, roedd hwn yn ymarfer o gasglu cymaint o ddata â phosibl am ysmegu ac roedd llawer gormod o gwestiynau amherthnasol yn yr holiaduron. O ganlyniad, roedden nhw'n cynhyrchu llawer gormod o ddata oedd ddim yn gysylltiedig â'r rhagdybiaeth, ac roedd hyn yn gwneud dadansoddi'n anodd. Roedd hefyd yn arwain at ymchwiliadau oedd yn llawer rhy hir.

MPA2.3: Roedd defnyddio taenlenni ar gyfer y data crai yn broblem yma; roedd rhai ymgeiswyr yn cynhyrchu tudalennau o rifau a geiriau, yn aml mewn ffont maint bach iawn, heb lawer o berthnasedd i'r cwestiynau a ofynnwyd. Dylid annog ymgeiswyr i gasglu eu data crai a'u cyflwyno nhw mewn tablau sydd wedi'u labelu'n addas. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at MPA5.1.

Tasg 3: Dadansoddi'r data

Dyma'r dasg sy'n achosi'r anhawster mwyaf i ymgeiswyr. Drwy gydol y dasg hon, dylid dangos tystiolaeth bod yr ymgeiswyr yn deall ac yn cymhwyso'r termau a ddefnyddir wrth ddadansoddi data. Os defnyddir prawf ystadegol, dylid defnyddio termau fel graddau rhyddid, tebygolrwydd, gwerth critigol, paramedrig a'u hesbonio yn y cyd-destun cywir. Mae llawer o ymgeiswyr yn defnyddio'r derminoleg gywir ond yn methu ei hesbonio.

Dylai ymgeiswyr esbonio pam maen nhw wedi dewis prawf ystadegol gan ddefnyddio termau fel enwol, categorïaidd neu drefnol i ddisgrifio eu data. Gallai termau eraill gynnwys cydberthyniad, gwahaniaeth ystadegol, tuedd a dosraniad normal. Os oes angen, dylid datgan y rhagdybiaeth nwl cyn cynnal y prawf. Sylwch y dylai'r rhagdybiaeth nwl gynnwys y geiriau 'does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ...'

Bydd prawf ystadegol sydd wedi'i drefnu a'i ddadansoddi'n dda'n bodloni llawer o'r meini prawf asesu gan gynnwys MPA3.1, MPA4.2 ac MPA4.4. Mae'n dderbyniol defnyddio taenlen Excel i ddadansoddi'r data, ond os yw ymgeiswyr yn dangos camau cyfrifo'r prawf ystadegol bydd hyn yn eu helpu i gael marciau MPA4.1 a hefyd 4.2.

Mae rhestr o derminoleg a nodiant mathemategol ar gael yn y llyfryn Canllawiau Addysgu.

MPA4.1: Dylid cynnal prawf ystadegol, fel Chi sgwâr neu Mann-Whitney yn gywir i gyrraedd Band 3. Roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi defnyddio'r prawf Chi sgwâr mewn modd amhriodol. Dim ond data sy'n dangos dosraniad normal y gellir eu dadansoddi gan ddefnyddio gwriad safonol. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ceisio defnyddio gwriad safonol ar gwestiynau Likert. Mae hyn yn ddiystyr.

MPA4.2: Yr atebion gorau yma yw'r rhai sy'n gallu cysylltu'r casgliadau â'r dystiolaeth ac â'r rhagdybiaeth nwl mewn modd clir a rhesymegol. Mae ymgeiswyr sydd ddim yn cynnal prawf ystadegol yn dal i allu ffurfio casgliadau manwl a phriodol. Mae angen i gasgliadau gysylltu'n ôl â'r rhagdybiaeth wreiddiol.

MPA4.3: Yma, mae angen i'r ymgeiswyr werthuso eu data a/neu eu gweithdrefnau. Gellid cyfeirio yma at nifer y bobl yn y sampl, tuedd, dibynadwyedd y data a gasglwyd ynghyd ag unrhyw welliannau posibl.

MPA4.4: Roedd mwy o dystiolaeth eleni bod ymgeiswyr yn defnyddio nodiant mathemategol yn gywir. Er mwyn rhoi marc am ddefnyddio ffigurau ystyrlon yn gywir, mae angen tystiolaeth glir o gynnal cyfrifiad.

Tasg 4: Paratoi cyflwyniad

MPA5.1: Yma, mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno eu data mewn modd gweledol sy'n addas i gynulleidfa o wyddonwyr a phobl sydd ddim yn wyddonwyr. Mae angen esbonio unrhyw derminoleg wyddonol (cysylltu ag MPA 3.1). Mae angen i bob tabl a graff fod wedi'i gynllunio'n gywir. Mae angen penawdau clir ar golofnau tablau (cysylltu ag MPA 2.3 a 4.4) ac mae angen labelu graffiau'n llawn. Roedd llawer o graffiau oedd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio taenlenni Excel wedi'u cyflwyno heb echelinau wedi'u labelu.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Mae rhestr o derminoleg a nodiant mathemategol ar gael yn y llyfryn Canllawiau Addysgu.
- Mae'n rhaid cynnwys cynllun er mwyn cael marciau MPA2.1.
- Dylid annog ymgeiswyr i ganolbwyntio ar ansawdd eu holiaduron – dylen nhw ganolbwyntio ar gwestiynau perthnasol yn unig.
- Atgoffir canolfannau bod gwaith enghreifftiol ar gyfer yr uned hon ar gael i'w weld ar wefan ddiogel CBAC.

GWYDDOR FEDDYGOL

Diploma Lefel 3

Haf 2019

UNED 4

Sylwadau Cyffredinol

Mae Uned 4 yn uned a asesir yn fewnol ac mae'n werth 50% o farciau'r ail flwyddyn. Mae wedi'i rhannu'n dair tasg. Mae pob tasg yn caniatáu i ymgeiswyr gyfathrebu mewn gwahanol ffyrdd sy'n briodol i'w cynulleidfa.

Mae disgwyl i ymgeiswyr gwblhau dau gyflwyniad i staff ysbyty ynglŷn â rhoi meddyginiaeth ac effeithiau meddyginiaeth ar gyfer tasg un. Mae tasg dau yn disgwyl i'r ymgeiswyr gynhyrchu gwybodaeth i gleifion am bedair gwahanol feddyginiaeth a thasg tri yw gwybodaeth am ganser, beth sy'n achosi canser a thriniaethau.

Cafodd gwaith ei gyflwyno ar gyfer uned 4 yn y gyfres hon gan 39 o ganolfannau.

Roedd llawer o'r cyflwyniadau hyn gan ganolfannau newydd ac roedd ansawdd y gwaith hwn yn amrywio, yn ogystal ag ansawdd yr asesu. Byddai anodi clir a manwl wedi helpu'r cymedrolwyr ar gyfer llawer o'r canolfannau newydd hyn.

Roedd y canolfannau sydd wedi cyflwyno gwaith o'r blaen yn cynhyrchu gwaith da yn gyson ac roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau hyn yn cymhwyso'r canllawiau marcio'n gywir ac yn anodi'r gwaith i helpu. Mae lleiafrif o'r canolfannau hyn yn dal i fod yn rhy hael wrth gymhwyso'r canllawiau marcio.

Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau wedi cyflwyno'r dogfennau gweinyddol cywir ac roedd pob canolfan wedi cynnwys dalenni dilysu wedi'u llofnodi gan yr ymgeiswyr. Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau wedi llenwi'r dalenni cofnodi marciau yn gywir, er bod nifer bach o ganolfannau wedi methu adio'r marciau'n gywir a bod y tîm cymedroli wedi canfod nifer o gamgymeriadau clerigol.

Mewn rhai achosion, roedd nifer y marciau a roddwyd i ymgeiswyr ar gyfer rhai MPA yn uwch na'r uchafswm y gellid ei roi, ac arweiniodd hyn hefyd at fwy o gamgymeriadau clerigol.

Cynghorir canolfannau i gyfeirio at waith enghreifftiol ar wefan ddiogel CBAC yn enwedig ar gyfer tasg 2 gan fod y taflenni wedi'u cyflwyno mewn modd syml ac effeithiol sy'n caniatáu i ymgeiswyr ennill marciau ar gyfer pob maen prawf ar gyfer marcio.

Bydd unrhyw waith y gwelir ei fod wedi'i gopïo neu ei ladrata yn cael ei dynnu i lawr i Fand 1 gan fod hyn yn dangos nad yw ymgeiswyr yn deall y gwaith yn ddigon da i ennill unrhyw farciau pellach. Dylid atgoffa ymgeiswyr na ddylid copïo gwaith o unrhyw adnoddau ac y dylai'r holl waith a gyflwynir fod yn wreiddiol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Tasg 1

Roedd safon y cyflwyniadau'n uchel iawn a chafodd llawer o ymgeiswyr farciau llawn bron am y dasg hon. Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi cwblhau cofnodion arsylwi'n dda, er bod nifer bach o ganolfannau'n dal i fethu cynnwys copi o ddeunydd y cyflwyniad, nodiadau'r siaradwr gan yr ymgeiswyr neu mewn rhai achosion ddisgrifiad adfyfyriol o gyfraniad yr ymgeiswyr at waith tîm. Mae angen y rhain i gyd ar gyfer Tasg 1. Mae hepgor y disgrifiad adfyfyriol (MPA4.3) yn golygu bod ymgeiswyr yn colli unrhyw farciau am MPA4.3 er bod canolfannau'n dal i roi marciau am yr MPA hwn.

Mewn cyflwyniadau yn y dyfodol, mae'n rhaid i ganolfannau gynnwys y dogfennau canlynol ynghyd â chofnod arsylwi wedi'i gwblhau: **copi o ddeunydd y cyflwyniad, nodiadau siaradwr gan yr ymgeisydd (os yn berthnasol) a disgrifiad adfyfyriol gan bob ymgeisydd i amlinellu ei gyfraniad at waith tîm.**

Tasg 2

Roedd yn amlwg bod llawer o ganolfannau'n cael trafferth i gwblhau'r dasg hon. Roedd ansawdd y gwaith yma'n amrywio. Roedd yn ymddangos bod canolfannau sydd wedi cyflwyno gwaith o'r blaen wedi deall beth sydd ei angen er mwyn gallu rhoi marciau'r band uchaf, ond roedd canolfannau newydd yn marcio'n rhy hael.

Mewn rhai achosion, roedd y pamffledi wedi'u cyflwyno a'u trefnu mewn ffordd oedd yn golygu nad oedd yr ymgeiswyr yn gallu cyrraedd pob band marcio, ac eto roedd yr ymgeiswyr hyn yn dal i fod wedi cael marciau band uchaf.

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n bwysig bod pob un o'r pedair pamffled yn dangos tystiolaeth o bob MPA ar gyfer y dasg. Roedd rhai canolfannau'n ansicr ynglŷn â beth oedd ei angen ac wedi cynhyrchu tair taflen yn unig, sy'n awtomatig yn cyfyngu ar ymgeiswyr. Roedd llawer o'r aseswyr yn rhy hael yn enwedig â'r meini prawf canlynol:

- **MPA2.2** - mae angen i ymgeiswyr esbonio sut mae meddyginiaethau'n effeithio ar systemau'r corff; mewn llawer o achosion doedden nhw ddim yn enwi'r system yn y corff. Mae hyn yn cyfyngu ar farciau'r ymgeisydd oherwydd nid yw enwi organ neu ran o'r corff yn ddigon.
- **MPA2.4** - mae'n bosibl i ymgeiswyr esbonio sut mae llawer o feddyginiaethau, nid dim ond gwrthfotigau, yn gallu colli eu heffeithiolrwydd a byddai disgwyl hyn er mwyn cael marciau band 3.
- **MPA2.5** - rhoddodd llawer o ymgeiswyr restr o'r meddyginiaethau sy'n rhyngweithio â'r feddyginiaeth dan sylw, ond nid yw hyn yn ddigon i gael marciau band 2 neu 3. Dylai ymgeiswyr **esbonio** sut mae'r meddyginiaethau hyn yn rhyngweithio â'r feddyginiaeth dan sylw.
- **MPA2.7** - nid yw rhestr syml o sgil effeithiau'n ddigon yma, ac eto roedd llawer o ganolfannau'n rhoi marciau uchel am hyn. Mae angen i ymgeiswyr **esbonio** sut mae'r adwaith niweidiol i'r feddyginiaeth wedi digwydd yn y corff a dylen nhw roi enghreifftiau.

Roedd diffyg anodi clir ar gyfer y dasg hon, yn enwedig gan nad oedd llawer o'r ymgeiswyr wedi cynnwys tystiolaeth o bob MPA ar bob taflen a'r aseswyr yn dal i fod wedi rhoi marciau. Byddai'n fuddiol ar gyfer cymedrol cyfresi'r dyfodol pe bai pob taflen wedi'i hanodi â sylwadau priodol i dynnu sylw at ble rhoddwyd yr MPA. Fel hyn, wrth farcio mae'n glir bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chynnwys ar bob taflen, sy'n ei gwneud yn haws cymhwyso'r bandiau marcio.

Ar gyfer nifer bach o ganolfannau, doedd dim byd i gyfiawnhau'r dull a ddefnyddiwyd wrth gyflwyno Tasg 2, MPA4.2. Rhaid i hyn fod yn bresennol er mwyn i ymgeiswyr ennill unrhyw farciau am yr MPA hwn. Eto, ni roddir marc os nad yw'r ymgeisydd yn cynnwys hyn yn y gwaith, ac eto roedd canolfannau'n dal i roi marciau uchel heb ddim tystiolaeth.

Tasg 3

Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau wedi cyflwyno gwaith derbynol ar gyfer tasg 3 ac roedd hwn wedi'i asesu'n briodol gan ddefnyddio'r canllawiau marcio. Mewn nifer bach o ganolfannau, roedd yr aseswyr yn rhy hael tuag at waith o safon isel.

Ar gyfer **MPA3.1** cafodd ymgeiswyr farciau band 3 am waith oedd ddim yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol i ddisgrifio'r term cancer. Gan mai dim ond 4 marc sydd am yr MPA hwn, mae'n bwysig cynnwys pob agwedd ar y gwaith. Yna, dylid lleihau'r marc a roddir os oes unrhyw beth wedi'i hepgor.

Yn gyffredinol roedd **MPA3.2** wedi'i gwblhau a'i asesu'n dda ac roedd yr ymgeiswyr yn esbonio sail genetig cancer yn glir, ac roedd y gwaith hwn wedi'i asesu yn unol â'r canllawiau marcio.

Mae **MPA3.3** yn caniatáu i ymgeiswyr gael marciau uchel am ddisgrifiadau o driniaethau cancer posibl. Roedd hyn, eto, wedi'i wneud yn dda gan y mwyafrif. Mae'n werth nodi yma bod angen i ymgeiswyr gynnwys gwybodaeth am yr holl opsiynau triniaeth sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau i athrawon er mwyn cael marciau band 3. Dylid disgrifio'r rhain yn ddigon manwl ar gyfer y marciau band 3 ac eto dylid lleihau nifer y marciau a roddir os oes unrhyw beth wedi'i hepgor.

Roedd llawer o ganolfannau'n cael trafferth ag **MPA3.4** gan fod rhaid i ymgeiswyr gynnwys asesiad o effaith bosibl triniaethau newydd ar gyfer cancer, nid disgrifiad syml. Roedd llawer o aseswyr wedi rhoi marciau am ddisgrifiadau o'r triniaethau heb asesiadau o'u heffeithiau - mae hyn yn anghywir ac os nad yw ymgeiswyr wedi gwneud asesiad ni allant ennill y marciau hyn.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- I grynhoi, roedd tasg un yn dasg o safon uchel ac roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi darparu'r dogfennau cywir a chymhwyso'r canllawiau marcio'n gywir.
- Roedd tasg dau'n amrywio'n fawr ar draws canolfannau ac felly dylai llawer o ganolfannau, yn enwedig canolfannau newydd, ddarllen eu hadroddiadau penodol i weld meysydd i'w gwella. Roedd y marcio'n tueddu i fod yn rhy hael a gwelwyd diffyg anodi gan nifer mawr o ganolfannau.
- Roedd tasg tri yn tueddu i fod wedi'i gwneud yn dda, ac roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi deall y briff yma.
- Cyfeiriwch at adroddiadau penodol i ganolfannau ac at y manylion a nodir uchod i gael gwybodaeth bellach sy'n benodol i MPA.

GWYDDOR FEDDYGOL

Diploma Lefel 3

Haf 2019

UNED 5

Sylwadau Cyffredinol

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n allanol drwy aseiniad sy'n cael ei ddarparu gan CBAC yn flynyddol ym mis Medi ym mhob blwyddyn academiaidd. Mae ar gael i'w llwytho i lawr o wefan ddiogel CBAC ac eleni roedd yn seiliedig ar brofi samplau carthion ac yn gysylltiedig â chanser y coluddion.

Roedd cynnydd sylweddol yn nifer y canolfannau a gyflwynodd waith ar gyfer yr uned hon yn y gyfres hon. Roedd y gwaith a gyflwynwyd gan y rhan fwyaf o'r canolfannau'n dda, er bod ymgeiswyr o rai canolfannau wedi methu cwblhau'r tasgau i gyd. Mae'r cynllun marcio ar gyfer yr uned hon ar gael yn y fanyleb a gallai fod yn werth rhannu hon â'r ymgeiswyr cyn iddynt ddechrau'r aseiniad, oherwydd nid pawb oedd wedi cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Gweithgaredd 1 – Defnyddio Technegau Labordy Clinigol.

Mae tasgau'r gweithgaredd hwn yn gysylltiedig â'r disgwyl i'r ymgeiswyr gynllunio a chynnal yr ymchwiliad, casglu canlyniadau ac yna eu crynhoi mewn adroddiad ar wahân. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau ar gyfer pob maen prawf asesu. Roedd MPA 2.1 yn gofyn i'r ymgeiswyr gynllunio tri phrawf, ac i gael marciau llawn roedd disgwyl iddynt wneud y canlynol:

- dweud beth oedd bwriad pob prawf
- ysgrifennu dull cryno, ond cywir fyddai'n gweithio (e.e. nid prawf llinell, oherwydd roedd rhaid cyfrifo niferoedd cytrefi)
- nodi'r canlyniadau disgwyliedig.

Does dim angen i ymgeiswyr brofi mwy nag un set o samplau; dim ond un set sy'n ofynnol gan y briff.

Mae'n rhaid i'r cofnod arsylwi, a ddarperir i'r aseswr ei gwblhau, gynnwys y marc am y profion. Nid oedd pob canolfan wedi gwneud hyn, sy'n golygu nad oedd modd rhoi marciau gan nad oedd tystiolaeth i ddangos rhai agweddau ar MPA 2.2.

Wrth gofnodi'r data ar gyfer MPA 2.3, cafodd marciau eu colli oherwydd diffyg esboniad o beth roedd angen iddynt ei wneud yn y cyfrifiad, diffyg manwl gywirdeb, ffurf safonol ac unedau. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffactor hygyrchedd o 59.9 ar gyfer yr MPA hwn.

Roedd MPA 3.4 yn cael ei asesu yma. Roedd y dasg yn gofyn am grynodedd byr ac ni ddylai ymgeiswyr geisio rhoi diagnosis i'r claf. Collodd rhai ymgeiswyr farciau am beidio â chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn a gwneud gwaith ymarferol ychwanegol. Serch hynny, hwn oedd yr MPA â'r ffactor hygyrchedd uchaf yn yr asesiad – 95.8.

Nid yw'n hanfodol gwneud y gwaith ar brosesydd geiriau, ac mae hefyd weithiau'n arwain at golli marciau oherwydd anghywirdeb e.e. sillafu a ffurf safonol. Yn bendant, nid yw'n ddefnyddiol i'r ymgeiswyr ysgrifennu eu gwaith â llaw yn gyntaf ac yna ar brosesydd geiriau, fel y gwelwyd gan lawer o ganolfannau. Byddai'n anodd iawn cwblhau'r holl waith gofynnol o fewn yr amser a ganiateir (4.5 awr).

Cam 2 - Profi clinigol.

Roedd y tasgau hyn yn fwy arwahanol. Roedd ymgeiswyr yn aml yn colli marciau am y dasg gyntaf, ac roedd y mwyafrif yn gwneud yr ail dasg yn dda.

Roedd tasg 1 yn gofyn i'r ymgeiswyr gynhyrchu tabl o wybodaeth; roedd angen iddo fod yn gryno. Roedd peidio â dilyn y cyfarwyddiadau yn golygu colli marciau o MPA 3.4.

Roedd angen i'r wybodaeth fod yn berthnasol i egwyddorion y tri phrawf. Ysgrifennodd llawer o ymgeiswyr am beth fyddai'n rhaid i'r claf ei wneud, yn hytrach na sut mae'r prawf yn gweithio mewn gwirionedd. Mae manylion am yr hyn y dylid bod wedi'i ddysgu i'r ymgeiswyr i'w cael yn y fanyleb ac yn y canllawiau i athrawon ar gyfer MPA 1.1. Roedd y ffactor hygyrchedd o 55.4 yn dangos bod rhai ymgeiswyr wedi gweld yr MPA hwn yn anodd.

Ychydig iawn o ymgeiswyr oedd wedi cynnwys gwybodaeth fanwl ar gyfer MPA 1.2 am y ffactorau fyddai'n effeithio ar bob un o'r tri phrawf ac roedd llawer o ymgeiswyr wedi colli marciau yma; dim ond un neu ddau a roddodd esboniad cywir, manwl a chydlynol â rhesymu manwl ynglŷn â'r ffactorau sy'n effeithio ar bob un o'r profion clinigol hyn. Mae angen mwy na pharagraff generig – dylid esbonio pam mae pob ffactor yn cyfyngu ar ganlyniadau'r profion gofynnol. Adlewyrchir y pwyntiau hyn yn y ffaith mai MPA1.2 oedd â'r ffactor hygyrchedd isaf yn yr asesiad, sef 45.1.

Roedd tasg 2 yn ddadansoddiad o ganlyniadau a roddwyd i'r ymgeiswyr gan ddefnyddio'r gwerthoedd normadol a roddwyd. Ar gyfer MPA 3.1, roedd angen graff â graddfeydd addas, wedi'i luniadu a'i labelu'n fanwl gywir. Graffiau wedi'u lluniadu â llaw oedd yn tueddu i gael y marciau uchaf; roedd y rhain yn tueddu i fod yn llawer gwell nag unrhyw beth oedd wedi'i gynhyrchu'n electronig.

Er mwyn llunio'r graff, roedd angen cyfrifo cymedrau ar gyfer MPA 3.2. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn llwyddo i wneud y cyfrifiadau hyn, ond roedd llawer yn methu esbonio beth roedd angen ei wneud. Mae'r cynllun marcio'n nodi bod angen cyflwyno cyfrifiadau yn glir ac yn rhesymegol gan ddefnyddio ffigurau ystyrlon cyson a chywir, a cholodd llawer o ymgeiswyr farciau am yr agweddau hyn.

Roedd y marciau am MPA3.3 yn tueddu i fod yn dda, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu dadansoddi'r marciau ar gyfer yr holl wybodaeth a roddwyd. Eto, ni ddylid rhoi diagnosis a dylai'r wybodaeth fod yn gryno.

O fewn MPA 3.4 mae'n bwysig bod yr ymgeisydd yn "defnyddio strwythur priodol". Er mwyn i ymgeiswyr beidio colli marciau yma, byddai o gymorth peidio rhannu tasgau (e.e. cynllun tasg 1 ar y dechrau ond y canlyniadau ar y diwedd neu ddisgrifio ELISA mewn llawer o fannau drwy'r gwaith i gyd).

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Ar y cyfan, cyflwynwyd gwaith o safon dda gan y rhan fwyaf o'r canolfannau ac mae llawer o athrawon yn rhoi'r sgiliau i ddisgyblion i allu cyrraedd y marciau uchaf.
- Roedd rhai darnau o waith wedi'u hanodi gan athrawon, sy'n ddiangen yma gan fod CBAC yn marcio'r gwaith.
- Roedd rhai sgriptiau hefyd yn cynnwys agweddau oedd yn debyg iawn a dylid nodi y dylid gwneud y gwaith hwn yn unigol ac nid fel rhan o grŵp.
- Roedd rhai ymgeiswyr wedi gwneud llawer iawn o waith diangen ac wedi cyfeirio'r ymchwil hwn. Mae hyn yn wastraff amser iddynt oherwydd dylent fod wedi dysgu popeth mae angen ei wybod i gwblhau'r tasgau hyn ac mae'n rhaid bod gorfod cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn o fewn yr amser a ganiateir wedi effeithio ar ansawdd y gwaith y gofynnwyd amdano.
- Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau wedi cyflwyno'r gwaith gweinyddol gofynnol, ond does dim angen ffolderi a phocedi plastig.
- Ddylai'r gwaith ddim bod yn fwy na rhai dalenni, felly byddai styffylu gwaith pob ymgeisydd at ei gilydd yn ddigonol.
- Dylid nodi ei bod yn hanfodol atodi dalen ddilysu wedi'i llofnodi gan yr ymgeisydd a'r ddalen cofnodi marciau at waith yr ymgeiswyr.

GWYDDOR FEDDYGOL

Diploma Lefel 3

Haf 2019

UNED 6

Sylwadau Cyffredinol

Hon oedd yr ail flwyddyn i'r uned hon gael ei harchwilio ac roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn. Mae'r cwestiynau yn y papur hwn yn seiliedig ar erthygl a ryddheir ymlaen llaw sydd ar gael bedair wythnos cyn yr arholiad.

Mae'r erthygl a ryddheir ymlaen llaw / ffolder adnoddau yn cynnwys gwybodaeth am dri chyflwr meddygol. Yn yr arholiad hwn, y cyflyrau meddygol oedd briwiau stumog, dystroffi cyhyrol Duchenne ac isthyroidedd. Disgwylir i ymgeiswyr astudio ac ymchwilio'r wybodaeth a gyflwynir yn y ffolder adnoddau.

Mae deunyddiau ychwanegol am bob cyflwr meddygol hefyd wedi'u cynnwys yn yr arholiad.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Cwestiynau 1-4 – Astudiaeth Achos 1 – Briwiau Stumog

Ffactor hygyrchedd: 55.5, cyfradd rhoi cynnig 100%

- C.1** Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â threulio protein a sut mae'r endopeptidasau pepsin a thrypsin yn gweithio. Roedd angen i'r ymgeiswyr ddefnyddio gwybodaeth mewn graff a roddwyd yn dangos effaith pH ar yr ensymau hyn. Roedd yn amlwg o lawer o'r atebion i ran (b) bod gan ymgeiswyr ddealltwriaeth wan o'r mathau hyn o ensymau.
- (a) Roedd bron bob ymgeisydd yn gallu ennill y 4 marc i gyd am y cwestiwn cyntaf hwn drwy ddisgrifio effaith pH ar yr ensymau hyn. Enwi'r pH optimwm ar gyfer pob un a nodi eu lleoliadau cymharol yn y system dreulio.
 - (b) Yn rhan (i) dim ond ychydig o ymgeiswyr enillodd farciau yma. Ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu disgrifio gweithred endopeptidasau ac ecsopeptidasau ar bolypeptid. Dim ond llond llaw o ymgeiswyr oedd yn gallu awgrymu'n gywir pam roedd treuliad y polypeptid yn fwy effeithlon os oedd yn dod i gysylltiad ag endopeptidasau cyn dod i gysylltiad ag ecsopeptidasau.
- C.2** Roedd angen Ffigwr 1 i ateb y cwestiwn hwn.
- (a) Yn rhan (a) roedd bron bob ymgeisydd yn gallu disgrifio o leiaf un o'r tueddiadau roedd y graff yn eu dangos – mae mynychder haint *H. pylori* yn cynyddu gydag oed neu mae'r mynychder yn fwy yn India o gymharu â'r Deyrnas Unedig.
 - (b) Yn rhan (b) roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu awgrymu rheswm dros y duedd. Roedd y rheswm mwyaf cyffredin yn ymwneud â safonau hylendid bwyd. Roedd llai o'r ymgeiswyr yn gallu rhoi rhesymau addas dros y duedd gydag oedran.

C.3 Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar y cyffuriau sy'n cael sylw yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw a sut maen nhw'n gweithio.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn ennill marciau llawn yma ac yn gallu disgrifio sut mae cyffuriau PPI a gwrthasidau'n lleihau symptomau diffyg traul.

C.4 Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr eu bod nhw wedi defnyddio'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw yn dda ac wedi defnyddio'r wybodaeth a roddwyd fel sail i feddwl pellach cyn yr arholiad. Roedd angen Ffigwr 2 hefyd i ateb rhan (c).

- (a) Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i enwi rôl tawelydd ac anaesthetic lleol yn gywir. Fodd bynnag, roedd llawer o ymgeiswyr wedi nodi, yn anghywir, bod tawelydd a/neu anaesthetic lleol yn gwneud i'r claf gysgu.
- (b) Roedd bron bob ymgeisydd wedi ennill marciau am ddisgrifio sut i gynnal gastrosgopi, a'r rhan fwyaf yn cael y 4 marc llawn.
- (c) Gan ddefnyddio ffigwr 3, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn awgrymu'r anaesthetic lleol cywir ac yn esbonio eu dewis yn gywir.

Yn rhan (iii) roedd angen i'r ymgeiswyr ddefnyddio gwybodaeth o'r astudiaeth achos (Harold) a gwybodaeth o'r tabl i gyfrifo uchafswm y dos sydd ei angen. Roedd nifer o ymgeiswyr heb gyfeirio at yr astudiaeth achos i gyfrifo pwysau Harold ac yn methu ennill unrhyw farciau.

Cwestiynau 5-9 – Astudiaeth Achos 2 – dystroffi cyhyrol Duchenne

Ffactor hygyrchedd: 28.0, cyfradd rhoi cynnig 100%

- C.5**
- (a) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu nodi beth oedd ystyr y term 'cysylltiedig â rhyw'.
 - (b) Enillodd llawer o ymgeiswyr rai marciau yma. Os oedd yr ymgeisydd yn defnyddio bonyn y cwestiwn i nodi genotypeipiau'r rhieni yn gywir a chwblhau'r sgwâr Punnett, roedd 3 marc ar gael. Roedd dwyn gwall ymlaen (dgy) yn aml yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y sgwâr Punnett os oedd y genotypeipiau'n anghywir, ond y croesiad a'r datganiad tebygolrwydd yn gywir.
- C.6** Dim ond rhai ymgeiswyr roddodd ddisgrifiad da o broses PCR. Roedd llawer wedi rhoi disgrifiad gwael gan ddrysio rhwng y dechneg hon ac ELISA neu RIA. Roedd marciau'n cael eu rhoi am nodi prif ddiben PCR mewn profion genetig.
- C.7** Roedd Ffigwr 4 (olin ECG normal) yn cael ei roi i'r ymgeiswyr fel cymorth.
- (a) Dim ond ychydig o ymgeiswyr oedd yn gallu esbonio'r gwahaniaethau rhwng ECG normal a chlaf â dystroffi cyhyrol Duchenne er bod yr enghraifft a roddwyd yn cyfeirio at ddargludiad. Byddai disgwyl i ymgeiswyr allu disgrifio'r dargludiad trydanol mewn ECG a chanfod annormaleddau wrth ei gymharu ag olin normal. Fel arfer, roedd ymgeiswyr yn ennill marciau am esbonio'r term cyflymedd y galon.
 - (b) Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud ag adeiledd y galon, nid sut mae'n gweithio. Dim ond rhai ymgeiswyr oedd yn gallu disgrifio'r effeithiau ar adeiledd y galon.

- C.8** Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar y cyffuriau sy'n cael sylw yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw a sut maen nhw'n cael eu defnyddio i drin claf dystroffi cyhyrol Duchenne. Llwyddodd bron bob ymgeisydd i ennill o leiaf un marc yma, fel rheol am nodi bod y ddau gyffur hyn yn gostwng pwysedd gwaed.
- C.9** Roedd angen gwybodaeth o'r astudiaeth achos a Ffigwr 3 i ateb y cwestiwn hwn. Roedd llawer o ymgeiswyr yn ennill yr holl farciau oedd ar gael yma. Roedden nhw'n llwyddo i enwi'r cam cywir (cam 5) a rhoi esboniadau cywir. Roedd ymgeiswyr hefyd yn cael rhai marciau am ddewis cam 4 cyn belled â bod yr esboniadau ar gyfer eu penderfyniadau'n gywir.

Cwestiynau 10-13 – Astudiaeth Achos 3 – Isthroidedd

Ffactor hygrychedd: 43.6, cyfradd rhoi cynnig 100%

- C.10** Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ennill rhai marciau am ddisgrifio'r term awtoimiwn, fel rheol am sylweddoli ei fod yn ymateb imiwn annormal.
- C.11** (a) Enillodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr o leiaf un marc am esbonio pam mae tyrosin wedi'i ddosbarthu fel asid amino, drwy adnabod y grŵp carbocsyl neu amin fel rheol. Ni roddwyd marciau am ddatgan ei fod yn cynnwys grŵp amino.
- (b) Roedd bron bob ymgeisydd yn gallu awgrymu'n gywir bod iodid yn rhan o'r deiet.
- (c) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn deall proses RIA ac wedi rhoi'r camau yn y drefn gywir ac ennill marciau llawn. Yn rhan (ii) roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu rhoi mantais ychwanegol gywir i RIA ac un o risgiau defnyddio'r dechneg hon.
- C.12** Roedd angen Ffigwr 5 i ateb y cwestiwn hwn. Roedd y cwestiwn hwn hefyd yn ymwneud â gwaith yn uned 3 y cwrs.
- (a) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi cael y marc am nodi'r rhagdybiaeth nwl. Mae'n rhaid i'r rhagdybiaeth nwl nodi nad oes gwahaniaeth arwyddocaol... Yn rhan (ii) roedd rhaid i'r ymgeiswyr ddefnyddio'r wybodaeth yn y bonyn a'r tabl i ganfod y tebygolrwydd a chymharu hwn â'r gwerth χ^2 oedd wedi'i roi. Enillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr un marc am wrthod y rhagdybiaeth ond roedd llawer wedi methu rhoi rheswm cywir.
- (b) Roedd llawer o ymgeiswyr wedi ennill y rhan fwyaf o'r marciau oedd ar gael am gymharu'r wybodaeth yn ffigur 5 yn gywir. Roedd y rhan fwyaf yn deall bod y mynychder yn fwy ymysg benywod a'i fod yn cynyddu gydag oed. Roedd y pwynt marcio olaf, yn ymwneud â'r mynychder ymysg benywod yn cynyddu'n gynt, yn aml yn cael ei fethu.
- C.13** Roedd angen Ffigwr 6 i ateb y cwestiwn hwn. Roedd y cwestiwn hwn hefyd yn ymwneud â gwybodaeth yn yr astudiaeth achos.
- (a) Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gallu cyfrifo cyfanswm nifer y pecynnau sydd eu hangen mewn blwyddyn, ond roedd llawer yn methu sylwi bod angen y ddau becyn gwahanol, 150µg a 100µg; mae cost y ddau becyn yn wahanol i'w gilydd. Roedd llawer o ffyrdd cywir o gyfrifo'r gost, fesul pecyn neu fesul tabled, a rhoddwyd marciau am bob ffordd.

- (b) Enillodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr un marc yn unig yma. Fel rheol, roedd yr ymgeiswyr yn gallu deall ei bod yn cymryd amser i fynd i fferyllfa/i weld meddyg teulu ac felly bod mynd yn llai aml yn arbed amser. I dderbyn arbed arian roedd angen amodi hynny, e.e. llai o gostau teithio neu amser y meddyg teulu. Yn rhan (ii) roedd llawer o ymgeiswyr yn deall bod yn well gan y GIG amseroedd presgripsiwn byr er mwyn gallu monitro diffyg ymlyniad.
- (c) Mae'r rhan hon o'r cwestiwn yn canolbwyntio ar y cyffuriau sy'n cael sylw yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw, sut maen nhw'n gweithio a sgil effeithiau'r cyffuriau hyn. Roedd rhai o'r ymgeiswyr yn gallu esbonio'r sgil effeithiau hyn yn dda iawn ac yn dangos eu bod nhw wedi defnyddio'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw yn effeithiol. Yn rhan (ii) roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu nodi'r brif ffordd o ddefnyddio'r cyffur lithiwm ac yn gallu nodi sgil effaith gywir – mae llawer o'r rhain.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Mae'n bwysig iawn defnyddio'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw cyn sefyll yr arholiad hwn. Mae'r canolfannau a'r ymgeiswyr sy'n gwneud orau yn yr arholiad hwn wedi darllen yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw ac wedi ymchwilio i wybodaeth am bob astudiaeth achos.
- Dylid annog ymgeiswyr i ddeall y canlynol ac ymchwilio iddynt; mynychder a symptomau clefyd, beth sy'n ei achosi a'r prosesau a ddefnyddir i roi diagnosis o glefyd, triniaethau a enwir a sut mae cyffuriau a enwir yn gweithredu ar glaf.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
Gwefan: www.cbac.co.uk

